

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 6ed 2023 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eifion Davies (cadeirydd), Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Morris, Rita Jones, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans a Alwyn Jones.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

- i) Roedd y twll yn y ffordd gerllaw Bwlchgarneddog, Bethel wedi cael ei drwsio.
- ii) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi gofyn i beiriannydd YGC asesu'r wal ger ochr yr afon, gyferbyn a'r capel yng Nglanrafon. Byddai wedyn yn trefnu i'w atgyweirio pan fyddai'r gweithlu ar gael.
- iii) Cafwyd cadarnhad fod camfa newydd wedi cael ei osod ar lwybr Cwm Hwylfod, Cefnddwysarn.
- iv) Ceir yn cael difrod i'w olwynion oherwydd y graig sy'n dod allan i'r ffordd ger Crogen, Llandderfel – roedd technegydd o'r Adran Traffig yng Nghaernarfon am adolygu'r safle a rhoi argymhellion i wella ffordd.
- v) Goryrru ar yr A494 – cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod ganddynt ddim cynlluniau ar hyn o bryd i wneud unrhyw welliannau diogelwch ond y byddant yn parhau i adolygu'r sefyllfa.
- vi) Cyflwr yr Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – roedd y cler wedi derbyn cwynion pellach am gyflwr yr adeilad ar ol i'r perchnog dynnu rhai o'r llechi o'r to. Anfonwyd y cwynion yma ymlaen i Gyngor Gwynedd.
- vii) Cyflwr yr A494 rhwng Cefnddwysarn a Sarnau – cafwyd cadarnhad fod y ffordd yng Nghefnddwysarn ar restr blaenoriaeth yr Asiantaeth Cefnffyrdd i dderbyn gwaith ail wynebu'r unai cyn wyliau'r haf neu yn yr hydref. Roedd arwydd o symudiad tir o dan y ffordd ar gorneli Gors y Sarnau ac felly byddai angen ymchwiliadau pellach cyn cychwyn unrhyw waith yno.

b) Mynwentydd

- i) Cais grant Cronfa Melinau Gwynt Clocaenog – yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ganolbwyntio ar asesu cyflwr y coed a'r wal gynnal ym mynwent Llanfor, gofynnwyd i'r Clerc ymgysylltu a'r swyddogion priodol i ofyn am gyngor. Cais grant i Gronfa Cymunedau Eryri – gan fod tipyn mwy o waith ym mynwent Llanfor na thybwyd, penderfynwyd gwneud cais am arian i'r gronfa ar gyfer gwneud gwelliannau i fynwent Frongoch, gan gynnwys llwybr troed newydd, torri a thocio coed, mainc a bwrdd gwybodaeth newydd a phlannu blodau. Gan fod amser yn brin gofynnwyd i'r cler wneud y cais a chael prisiau ar gyfer y gwaith cyn gynted a phosib.
- ii) Cerrig beddi mynwent Llandderfel – diolchwyd i'r cynghorwyr Alwyn Jones ac Eilir Rowlands am eu gwaith yn y fynwent.

c) Archwilio Asedau.

Nodwyd fod yr asedau wedi cael eu harchwilio ac nid oeddynt angen unrhyw waith cynnal a chadw.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Fferm Wynt Gaerwen.

- i) Diweddariad gan RWE– nodwyd fod y nifer o dyrbinau wedi lleihau i 9 ond byddai dau ohonnynt yn cynyddu yn eu uchder i 200m. Nid oeddynt bellach yn archwilio potensial ynni solar ar y safle.

b) Cwmni Pum Plwy Penllyn.

- i) Cynrychiolwyr y Cyngor – gan nad oedd Gwynedd Jones yn dymuno parhau i gynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgorau, cytunodd Rita Jones i gymryd ei le.
- ii) Camera Cylch Cyfyng – Trafodwyd cais yr Heddlu i osod camera cylch cyfyng wrth yr Orsaf Dan i arswyli traffig yn mynd i mewn ac allan o'r dre. Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn syniad da, yn enwedig ar ol yr achosion o ladrata yn ddiweddar. Cytunwyd i gyfrannu arian tuag at y cynllun os byddai angen.

c) Cyngor Gwynedd.

- i) Cynllun Rhannu Cartref.
- ii) Rhybuddion cau ffordd dros dro.
- iii) Digwyddiad 'Ardal Ni 2035' Dalgylch Bala Penllyn - 25.5.2023. Cafwyd adroddiad gan Bethan Thomas o'r hyn a drafodwyd.

ch) Un Llais Cymru.

- i) Rheolau Sefydlog Newydd – cymeradwywyd i'w mabwysiadwy'.

d) Amrywiol

- i) Parc Cenedlaethol Eryri - Gweminar Aelodau Cynghorau Cymuned - Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, 8/6/23.
- ii) Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth – Gardd Llonyddwch.
- iii) Dŵr Cymru, - diweddariad proseict Llyn Celyn.

v) Ceisiadau Cynllunio.

- a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
 - a) C23/0409/04/LL – Adeiladu annedd amaethyddol newydd. Parc Y Derw Goed, Llandderfel.
 - b) NP5/63/237D – Uwchraddio offer telathrebu i fast presennol gan gynnwys antenna, polyn cynnal a gwaith cysylltiedig. Tir ger Ciltalgarth, Frongoch.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol i'r ceisiadau.

vi) Materion Ariannol.

a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.

Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n casglu'r holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad allannol. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y manau perthnasol.

b) Ceisiadau Ariannol.

Derbyniwyd cais gan SSAFA (The Armed Forces Charity), cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Goryrru ym mhentref Llandderfel.

Eglurodd y Cyng. Elwyn Edwards ei fod wedi bod mewn cyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod pa fesuriadau cyflymder a fyddai bosib ei gosod ger y cae chwarae.

b) Gofynnwyd i'r clerics basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

- i) Cwynion am lwybrau cyhoeddus Capel Rama, Llandderfel ac Erw Deg, Cefnddysarn.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 4ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.